# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Seren Fach**

**Hen Gapel M.C.**
**Brithdir**
**Dolgellau**
**LL40 2RW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/07/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Seren Fach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Meirion Cyf. |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

***Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.***

Mae'r plant yn fodlon eu byd; maent yn chwarae'n hyderus gyda'i gilydd a gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mynegi eu hunain yn dda yn unol â'u hoedrannau a'u camau datblygu. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau amrywiol, sy'n sicrhau bod y plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu a'u bod yn mwynhau eu hunain. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar, yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyried eu hanghenion a'r hyn sydd orau ganddynt.

Mae'r safle yn lân, yn ddiogel ac yn darparu lleoedd a chyfleusterau diddorol ac amrywiol i'r plant ddatblygu a chwarae. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi ymateb i ganllawiau a gyhoeddwyd ynghylch pandemig COVID-19 ac wedi cymryd camau priodol i leihau'r risg bosibl i'r plant. Maent yn deall eu rôl wrth reoli'r feithrinfa. Mae ganddynt weledigaeth glir ac maent wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cefnogi'r staff ac mae cydberthnasau cadarnhaol a llwyddiannus wedi'u meithrin â'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned ehangach.

## Llesiant

Caiff y plant gyfleoedd i wneud eu dewisiadau eu hunain. Er enghraifft maent yn dewis yr hyn y maent am ei wneud a gyda phwy y maent am chwarae. Caiff pob ymgais i gyfathrebu ei gwerthfawrogi, a phan fydd plentyn iau yn mynegi ei fod am gael help i fwyta, mae'r staff yn ymateb yn syth ac mae'r plentyn yn fodlon. Mae'r plant yn helpu eu hunain i ddiod o ddŵr pan fyddant yn sychedig ac yn penderfynu pryd y maent am ddefnyddio'r toiled.

Mae'r plant yn y feithrinfa wedi setlo ac yn berffaith hapus yn chwarae ochr yn ochr â'r staff a'u ffrindiau. Siaradodd y plant yn hyderus â ni, gan ofyn pwy oeddem a beth roeddem yn ei wneud. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi dod i'r feithrinfa, chwarae yn yr awyr agored a mynd ar dractor Taid. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel pan fydd y staff yn eu cysuro. Er enghraifft pan fydd plentyn iau yn mynegi ei fod wedi blino, mae'r staff yn ei godi'n ofalus ac yn ei baratoi ar gyfer ei gyntun. Cadarnhaodd rhieni, drwy eu sylwadau yn ein holiadur (Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)), fod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn y feithrinfa, bod ganddynt gydberthnasau gwych â'r staff a'u bod yn ymddiried yn llwyr ynddynt.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r staff. Maent yn rhannu eitemau chwarae yn ddi-ffws ac yn deall bod angen iddynt aros eu tro i ddweud 'yma' yn ystod y broses gofrestru. Mae'r plant yn eistedd yn dda gyda'i gilydd amser cinio ac mae plant o oedrannau gwahanol yn chwarae'n naturiol â'i gilydd yn yr awyr agored. Mae'r plant yn barod i helpu pan fydd y staff yn gofyn iddynt dacluso cyn bwyta ac maent yn rhoi eitemau i gadw yn ddiwyd cyn mynd i olchi eu dwylo. Mae'r plant yn dysgu cwrteisi da a, gyda rhywfaint o anogaeth ar adegau, yn dweud os gwelwch chi'n dda a diolch pan fydd angen.

Mae'r plant yn frwdfrydig, yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu, ac yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau. Maent yn symud yn rhydd rhwng gweithgareddau, gyda rhai yn dewis darllen llyfrau, chwarae â thryciau o liwiau gwahanol neu osod siapiau pren at ei gilydd yn yr ystafell fabanod. Mae plentyn ifanc yn gwenu ac yn chwerthin ac yn canu cân am adeiladu wrth iddo osod blociau ar ben ei gilydd. Mae'r plant yn gweiddi 'hwre' wrth iddynt redeg i'r ardal chwarae awyr agored ac yn llawn cyffro wrth benderfynu eu bod am chwarae cuddio; mae un o'r plant yn dweud wrthym fod yn rhaid i ni guddio tra bod un arall yn cyfrif i 10. Mae pob un ohonynt yn diflannu i'w hoff fan cuddio cyn iddynt gael eu canfod ac ailddechrau'r gêm. Mae'r plant yn gwenu'n falch wrth iddynt gael eu canmol am ddod o hyd i'r sgitl â'r rhif cywir ac adnabod y lliw. Mae pob un ohonynt yn mwynhau'r rhyddid wrth chwarae yn yr awyr agored ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau fel y mynnant.

Mae'r plant yn dod yn annibynnol am fod y rhai sy'n ddigon hen yn defnyddio'r toiledau ar eu pen eu hunain ac yn golchi a sychu eu dwylo'n gywir cyn bwyta. Maent yn dod o hyd i'w poteli dŵr wedi'u labelu eu hunain ac yn gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau cyn mynd allan i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn cael cyfle gwych i ddefnyddio eu synnwyr clywed pan aiff buches o wartheg heibio i'r feithrinfa wrth iddynt fwyta eu cinio. Mae pob un ohonynt yn stopio ac yn gwrando ar y gwartheg yn brefu, ac yn gwenu wrth i'r sŵn dawelu wrth i'r gwartheg

symud i ffwrdd. Mae'r plant yn cael digon o gyfleoedd i feithrin eu sgiliau corfforol yn yr awyr agored ac fe'u clywir yn defnyddio eu dychymyg i greu storïau wrth iddynt eistedd gyda'i gilydd ar ben y ffrâm ddringo.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall eu rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn dilyn polisi COVID-19 priodol ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae'r staff yn meddu ar dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol felly gallent roi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen. Maent yn cwblhau cofrestrau presenoldeb dyddiol ynghyd â chofnodion ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Gwnaethant gadarnhau y caiff sgyrsiau â rhieni pan fydd plentyn yn cael anaf i'r pen eu cofnodi yn nyddiadur dyddiol yr ystafell ac yn ffeiliau unigol y plant. Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran rheoli achosion posibl o groes-heintio. Er enghraifft maent yn glanhau'r byrddau cyn eistedd a chyn dilyn y gweithdrefnau newid cewynnau cyfredol. Mae'r cogydd yn sicrhau bod y plant yn bwyta prydau cartref iach; nododd rhieni yn holiadur CIW fod eu plant yn mwynhau'r bwyd a ddarperir. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored yn yr amserlen ddyddiol o weithgareddau. Maent yn cynnal ymarferion tân fel bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn eu canmol am wneud rhywbeth yn dda. Er enghraifft maent yn dweud wrth y plant pa mor dda y maent yn cyfrif yn eu hail iaith, sef Cymraeg. Mae'r staff yn hyrwyddo cwrteisi da ac yn modelu rhyngweithiadau cadarnhaol drwy gydol yr arolygiad. Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'r plant wrth iddynt chwarae ac yn siarad â nhw mewn ffordd ofalgar a charedig. Mae'r staff yn rhoi esboniadau clir fel bod y plant yn deall. Er enghraifft, mae'r staff yn atgoffa'r plant am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud cyn y gallant fynd allan i chwarae yn yr awyr agored. Mae hyn yn gweithio'n dda ac mae rhyngweithiadau cadarnhaol yn deillio o hynny.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, mae'r staff yn sicrhau bod blancedi cysgu'r plant yn barod ar gyfer eu cyntun ac yn cefnogi'r plant y mae angen help arnynt i fwyta. Maent yn cynllunio ar gyfer profiadau chwarae a dysgu'r plant, gan wneud yn siŵr bod gweithgareddau amrywiol yn cynnal diddordeb y plant. Mae'r staff yn gwneud y dysgu'n hwyl i'r plant ac yn gosod rholyn o bapur wal i'r plant dynnu lluniau a lliwio arno yn yr awyr agored. Mae un arall yn taflu a dal pêl gyda'r plant ac mae pob un ohonynt yn chwerthin wrth i'r gwynt ei chwythu i ffwrdd ar ôl iddi gael ei thaflu. Mae'r staff yn achub ar y cyfle i addysgu'r plant am siapiau a lliwiau ar eu lefel nhw drwy chwarae. Er enghraifft, maent yn enwi lliwiau'r ceir gwahanol y mae'r plant yn dewis chwarae â nhw a'r siapiau pren gwahanol yn y gêm pos. Rhoddodd y rhieni a ymatebodd i holiadur AGC sylwadau cadarnhaol iawn am yr 'ap' a ddefnyddir gan y staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddiwrnod eu plentyn yn y feithrinfa. Roedd y wybodaeth a rannwyd yn cynnwys gweithgareddau, bwyd a gallent hyd yn oed gyfathrebu â'r staff drwy'r ap. Mae'r staff yn ymgysylltu'n dda â'r plant drwy'r amser yn ystod ein hymweliad, gan siarad â nhw a gwneud yn siŵr bod ganddynt yr hyn sydd ei angen arnynt a'u bod yn hapus.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod y safle yn ddiogel drwy gynnal gwiriadau diogelwch dyddiol. Mae'r drws ffrynt sydd ar glo a'r ardal chwarae awyr agored gaeedig yn rhwystro mynediad i'r safle ac mae'n rhaid i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael. Gwnaethom gwblhau asesiad risg ar garreg y drws o ran COVID-19 ac roedd systemau ar waith gan y staff i sicrhau eu bod nhw a'r plant yn ddiogel. Mae'r safle yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda sy'n lleihau'r risg o groes-heintio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gwneud yn siŵr bod y cofnodion risg ysgrifenedig yn sicrhau rheolaeth gyfredol o'r risgiau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod gan y plant le i symud o gwmpas mewn amgylchedd diogel, croesawgar a threfnus, gan hybu eu chwarae, eu dysgu a'u chwilfrydedd. Maent yn sicrhau bod gan y plant ymdeimlad o berthyn drwy arddangos eu gwaith crefft a darparu pegiau isel er mwyn iddynt hongian eu heitemau personol arnynt. Mae cynllun yr amgylchedd yn hybu annibyniaeth y plant ac mae'r cyfleusterau yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn darparu cyfleusterau newid cewynnau a thoiledau a chyfleusterau golchi dwylo maint plant, y gallant eu defnyddio ar eu pen eu hunain. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod pob ardal yn hybu chwarae a dysgu'r plant. Er enghraifft, mae gan bob grŵp oedran ei ystafell chwarae ei hun, sydd wedi'i haddurno mewn lliwiau llachar ac wedi'i gosod yn dda. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau yn yr awyr agored i annog y plant i archwilio a dysgu drwy chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth o deganau a chyfarpar o ansawdd da sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu. Er enghraifft mae'r babanod yn teimlo, yn cyffwrdd ac yn gweld goleuadau a deunyddiau gwahanol yn eu hardal synhwyraidd dawel. Maent yn darparu ar gyfer defnyddio eitemau cynaliadwy ac ailgylchadwy. Er enghraifft, mae digonedd o sosbenni a phadelli yn y gegin fwd a chaiff perlysiau eu tyfu mewn hen welintons. ** Dan do, mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ardaloedd a chyfarpar dynodedig i alluogi'r plant i fwyta, cysgu a gorffwys yn gyfforddus.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gweithio gyda sylw a gofal dyledus er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol a'r rheoliadau. Mae'r datganiad o ddiben (taflen wybodaeth) yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plentyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau Cymraeg yn dangos bod y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn monitro deilliannau'r plant ac yn sicrhau bod dysgu a datblygiad y plant yn gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn monitro'r gwasanaeth drwy'r flwyddyn ac yn cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal. Roedd yr adborth blynyddol gan rieni yn gadarnhaol, ac yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y ffordd y caiff y feithrinfa ei rheoli. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ymrwymedig i wneud newidiadau i wella deilliannau'r plant. Er enghraifft, maent wedi prynu adnoddau diddorol newydd ac wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau, yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael arfarniad blynyddol. Maent yn annog y staff i fynychu hyfforddiant a chyrsiau sy'n berthnasol i'w rolau ac yn cynnal ffeiliau'r staff yn unol â rheoliadau. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa system gweithiwr allweddol sefydledig er mwyn sicrhau bod y plant yn cael gofal cyson. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y person â chyfrifoldeb a'u bod yn mwynhau gofalu am y plant. Gwelsom fod y staff yn gweithio'n dda fel tîm drwy gydol ein harolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol a llwyddiannus â'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned ehangach. Fel rhan o'r broses arolygu, gwnaethom ysgrifennu at y rhieni yn gofyn am eu barn am y feithrinfa. Rhoddodd y rhieni sylwadau disglair am y gwasanaeth y maen nhw a'u plant yn ei gael yn ein holiaduron. Er enghraifft, dywedodd y rhieni '*We have huge respect for the way in which the staff have adapted to the pandemic and managed to keep open in the most trying of times* (Mae gennym barch enfawr at y staff am y ffordd y maent wedi addasu i'r pandemig ac wedi llwyddo i aros ar agor yn ystod cyfnod anodd iawn) ac 'xxx have thrived at Seren Fach and the opportunities they get are second to none' (Mae xxx wedi ffynnu yn Seren Fach ac mae'r cyfleoedd y mae'n eu cael heb eu hail.) Drwy enwebiadau gan y rhieni i Mudiad Meithrin, enillodd Meithrinfa Seren Fach wobr am y feithrinfa orau yng Nghymru yn 2020, gan ddangos gwerthfawrogiad y rhieni o'r gwasanaeth y mae eu plentyn yn ei gael. Mae'r plant yn cael budd o'r cydberthnasau da y mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi eu meithrin â'r gymuned leol. Er enghraifft, drwy arian a godwyd er cof am un o'r trigolion lleol, llwyddodd y feithrinfa i brynu cadair bren fawr a boncyffion i'r plant eistedd arnynt i wrando ar storïau yn yr awyr agored. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wrthym fod y bobl leol yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y plant wedi llenwi bocsys

esgidiau â rhoddion ac wedi eu dosbarthu i'r preswylwyr oedrannus adeg y Nadolig y llynedd, a bod y preswylwyr yn ddiolchgar iawn am hynny. Mae hyn yn enghraifft hyfryd, arloesol a meddylgar o'r plant yn dysgu am y byd o'u cwmpas ac yn dangos gofal tuag at bobl yn eu cymuned.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i Gyflawni** | |
|---|---|
| Rheoliad 15 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i'r unigolyn cyfrifol ddarparu datganiad o ddiben sy'n cydymffurfio â'r rheoliad i ni. | |
| Rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob ffeil staff wedi'i chwblhau. | |
| Rheoliad 29 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i'r unigolion cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd ac yn unigol yn ystod y flwyddyn. Dylid cofnodi'r cyfarfodydd hyn. | |
| Rheoliad 31 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i'r unigolyn cyfrifol ein hysbysu yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth, megis staff a newidiadau i oriau agor y gwasanaeth | |
| Rheoliad 6, Atodlen 1, Rhan 2 19 (a) (b) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) – rhaid i'r unigolyn cyfrifol ddarparu tystysgrif fanwl o gofnod troseddol wedi'i chydlofnodi gan Weinidogion Cymru. Pan fydd yr unigolyn cyfrifol wedi cael ei thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rhaid iddi ei chyflwyno i ni yn ein swyddfa yng Nghyffordd Llandudno. | Rheoliad 6 (3) (b) [iv] (aa) |
| Nid oedd gan y person â chyfrifoldeb dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chydlofnodi gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn darparu tystysgrif gan y DBS i ni ac yn ei chyflwyno i ni yn AGGCC – Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ | Rheoliad 8 (3) (a) |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** |
|---|

| | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/09/2021